**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/11206/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

6 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2025 ("y Rheoliadau"). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 19 (1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf REUL").

Nod y Rheoliadau yw sicrhau eglurder a hygyrchedd cyfreithiol drwy wneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth gymhathedig. Mae'r newidiadau'n ganlyniadol i adrannau 2, 4 a 5 o'r Ddeddf REUL. Ni fydd diwygio'r is-ddeddfwriaeth gymhathedig a deddfwriaeth uniongyrchol gymhathedig yn cael effaith sylweddol ar bolisi yng Nghymru a bydd yn gwneud y llyfr statud yn fwy hygyrch.

Gallaf gadarnhau nad oes newidiadau yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth y Senedd nac i offerynnau a wneir o dan ddeddfwriaeth y Senedd.  Mae'r holl newidiadau yn berthnasol i offerynnau a wneir o dan Ddeddfau'r DU neu i ddeddfwriaeth uniongyrchol gymhathedig.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr.

Caiff y Rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 27 Ionawr 2025.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.  Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwariant y GIG yn ôl rhaglen ofal ar sail y cyflwr meddygol y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.